**Monitro a gweithredu**

7.1 Mae’r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau i gadw golwg ar y materion a allai effeithio ar y gwaith o gynllunio a datblygu eu hardaloedd. Mae monitro felly yn rhan bwysig o greu polisïau sail tystiolaeth er mwyn asesu os yw polisïau’r Cynllun yn cyflawni eu hamcanion ac os yw strategaeth y Cynllun yn cael ei wireddu. Mae proses monitro yn golygu casglu a dadansoddi gwybodaeth yn rheolaidd, parhaus a systematig. Mae’r system fonitro yn fecanwaith allweddol i ddatblygu dealltwriaeth lawn o'r materion allweddol sy'n effeithio ar gymunedau.

7.2 Mae angen i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu fframwaith fonitro i’w galluogi i gasglu gwybodaeth werthfawr i fesur ac asesu berfformiad amcanion a pholisïau’r Cynllun. Mae’r fframwaith a welir isod yn cynnwys cyfres o ddangosyddion, targedau a throthwyon ar gyfer gweithrediad yn gysylltiedig â phob thema a’i amcanion. Bydd y fframwaith monitro yn caniatáu asesiad parhaus i weld os fyddant yn parhau'n ddilys neu a yw’r amgylchiadau economaidd, cymdeithasol neu ddiwylliannol wedi newid yn sylweddol. Bydd yn ffurfio sail ar gyfer asesu effeithiolrwydd polisïau ar lefel lleol ac ehangach a pa un ai ydi polisïau a thargedau perthnasol wedi cael eu cwrdd neu fod cynnydd yn cael ei wneud i’w cwrdd. Mae hefyd yn dangos perthynas rhwng themâu, amcanion (gan gynnwys datblygu cynaliadwy a gofynion AAS) a pholisïau’r Cynllun. Bydd hyn yn rhoi sail i’r adroddiad monitro blynyddol (AMB) - gweler isod.

7.3 Mae Rheoliad 37 yn rhagnodi’r ddau ddangosydd canlynol y mae'n rhaid eu cynnwys yn yr AMB:

- cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerwyd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir Tai presennol (TAN 1);
- nifer ychwanegol o dai fforddiadwy a nifer net ychwanegol o dai marchnad gyffredinol wedi eu hadeiladu yn ardal y Cynllun (TAN 2)

7.4 Cafodd y dangosyddion felly eu dewis i gynnwys yr uchod a lle mae’n bosib ddangosyddion craidd eraill a gyfeirir ato yn y “Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol”. Yn ychwanegol, cafodd dangosyddion lleol eu cynnwys am eu bod nhw’n berthnasol i ofynion penodol polisïau ac amcanion unigol a’r Asesiad Cynaliadwyedd/ Asesiad Amgylcheddol Strategol (gweler paragraff 7.6 isod).

7.5 Mae’r Cynghorau wedi ceisio osgoi risgiau i wireddu’r Cynllun trwy arddel ymagwedd ragweithiol i gael gwared â chyfyngiadau a phroses asesu trylwyr. Mae defnyddio’r fethodoleg asesu Safleoedd y Gofrestr Tir Posib cyn belled ag sy’n bosib gwneud hynny wedi golygu bod safleoedd a ddewiswyd yn rhai y gellir eu datblygu ac y gellir delio gydag unrhyw gyfyngiadau i’w datblygu. Mae Papur Testun 1 sydd wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â’r Cynllun Datblygu yn cofnodi’r broses asesu ac yn adnabod unrhyw ffactorau rydym yn ymwybodol ohonynt sydd angen ystyriaeth fesul safle. Os fydd unrhyw faterion yn codi sy’n effeithio ar ddatblygiad safleoedd a ddynodwyd, bydd hyn yn cael ei nodi trwy’r trothwyon yn y gwaith monitro yn y fframwaith fonitro a byddant yn cael sylw yn unol â’r Adroddiad Fonitro Blynyddol (AMB).

7.6 Mae’r Adroddiad Sgopio’r Asesiad Cynaliadwyedd/ Asesiad Amgylcheddol Strategol yn adnabod y dangosyddion gaiff eu defnyddio i fonitro cynnydd ar faterion cynaliadwyedd ac yn benodol datblygiad cynaliadwy. Gwelir y rhain yn yr Adroddiad Asesiad Cynaliadwyedd a lle mae’n bosib maent wedi cael eu cynnwys o fewn y fframwaith a welir yn y Cynllun.

7.7 Caiff y wybodaeth a gesglir trwy’r fframwaith fonitro a welir isod ei adrodd yn yr Adroddiad Monitro

| Croesgyfeirio | Dangosyddion - Craidd / Lleol | Targedau polisi | Lefel sbardun | Ffynhonnell data |
|---|---|---|---|---|
| | | 2024<br><br>Adeiladu 1,266 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2026 | | |
| | Dangosydd Lleol:<br><br>D48 % unedau tai fforddiadwy a ganiateir fesul ardal prisiau tai | % darpariaeth tai fforddiadwy yn unol â'r targed dangosol fesul ardal prisiau tai | % gyffredinol darpariaeth tai fforddiadwy yn disgyn islaw'r targed dangosol fesul ardal prisiau tai am 2 flynedd yn olynol, oni bai y'i cyfiawnheir o dan Bolisi TAI 15 | Cronfa ddata UPCC |
| | Dangosydd Lleol:<br><br>D49 Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd eithriedig gwledig | Cynnydd yn y nifer o safleoedd eithriedig tai fforddiadwy o'i gymharu â'r cyfartaledd yn ystod 2015/ 16 – 2016/ 17 | Dim cynnydd yn y nifer o safleoedd eithriedig tai fforddiadwy a ganiateir am 2 flynedd yn olynol | Cronfa ddata UPCC<br><br>Cronfeydd data Rheoli Datblygu |
| | Dangosydd Lleol:<br><br>D50 Newidiadau mewn gwerthoedd gweddilliol ar draws yr ardaloedd prisiau tai a nodwyd ym Mholisi TAI 15 | Cyflenwi'r lefel uchaf bosibl o dai fforddiadwy a ystyrir yn hyfyw yn unol â Pholisi TAI 15 | Cynnydd neu ostyngiad o 5% mewn gwerth gweddilliol mewn unrhyw ardal prisiau tai mewn unrhyw flwyddyn unigol | Pecyn Cymorth Gwerthuso Datblygiad<br><br>Mynegai Prisiau Tai Cofrestrfa Tir EM<br><br>Prisiau Tendr Gwasanaeth Gwybodaeth Cost Adeiladau RICS (BICS) |

